YSTADEGAU, DOGFENNU

# Arolwg Cenedlaethol Cymru (arolwg chwarterol): Ionawr i Fawrth 2021

Roedd yr arolwg ffôn yn cynnwys dros 3,000 o bobl rhwng mis Ionawr i Fawrth 2021, ac roedd yn ymdrin â phynciau fel addysg, lles a thlodi bwyd.

**Cyhoeddwyd gyntaf:** 1 Gorffennaf 2021

**Diweddarwyd ddiwethaf:** 1 Gorffennaf 2021

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/arolwg-cenedlaethol-cymru-arolwg-chwarterol-ionawr-i-fawrth-2021-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

# Cynnwys


Yr Ardal leol a'r amgylchedd

Newid yn yr hinsawdd

Perygl llifogydd

Llesiant ac unigrwydd

Gwasanaethau gofal iechyd

Iechyd y boblogaeth

Ysgolion cynradd

Ysgolion uwchradd

Cyflogaeth

Tlodi bwyd

Cyllid

Gwirfoddoli a COVID-19

Gwybodaeth am ansawdd

Manylion cyswllt



**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/arolwg-cenedlaethol-cymru-arolwg-chwarterol-ionawr-i-fawrth-2021-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

Yn ystod y cyfnod hwn, roedd yr Arolwg Cenedlaethol yn cynnwys dros 3,000 o bobl 16 oed a throsodd. Roedd yn ymdrin ag ystod o bynciau gan gynnwys rhai a ofynnwyd mewn misoedd blaenorol a rhai pynciau newydd.

Mae rhai canlyniadau wedi'u cynnwys o flynyddoedd blaenorol, er mwyn darparu cyd-destun. Er hynny, o gofio bod yr Arolwg Cenedlaethol wedi newid o'r modd wyneb yn wyneb i'r ffôn ym mis Ebrill 2020, dylid bod yn ofalus wrth wneud cymariaethau uniongyrchol.

## Yr Ardal leol a'r amgylchedd

Dywed 62% o bobl fod gan eu hardal leol ymdeimlad da o gymuned; mae hyn yn golygu eu bod yn teimlo eu bod yn perthyn i'r ardal, bod pobl o wahanol gefndiroedd yn cyd-dynnu, a bod pobl yn trin ei gilydd â pharch.

Gofynnwyd i bobl ddweud beth maen nhw'n ei ystyried yn broblem yn eu hardal leol: mae 36% yn dweud tipio anghyfreithlon, mae 51% yn dweud cŵn yn baeddu, mae 50% yn dweud sbwriel, ac mae 14% yn dweud graffiti neu fandaliaeth. Nid yw hyn wedi'i ddosbarthu'n gyfartal ledled Cymru. Mae 73% o bobl ym Mlaenau Gwent a 67% ym Merthyr Tudful yn dweud bod tipio anghyfreithlon yn broblem o'i gymharu â 17% o bobl yng Ngheredigion a Sir Ddinbych.


## Newid yn yr hinsawdd

Mae 97% o bobl yn credu bod yr hinsawdd yn newid: Mae 75% o'r rhain yn credu ei fod yn bendant yn newid a 23% ei fod yn newid yn ôl pob tebyg. Mae mwy o bobl yn dweud bod newid yn yr hinsawdd yn cael ei achosi'n bennaf gan weithgarwch dynol na phan ofynnwyd y cwestiwn hwn ddiwethaf yn 2018-19

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/arolwg-cenedlaethol-cymru-arolwg-chwarterol-ionawr-i-fawrth-2021-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

(Siart 1). Mae 71% o bobl yn credu bod newid yn yr hinsawdd eisoes yn cael effaith yng Nghymru.

**Siart 1: Achosion newid yn yr hinsawdd, 2018-19 ac Ionawr i Fawrth 2021**




Ffynhonnell: Arolwg Cenedlaethol Cymru, Ionawr i Fawrth 2021 a 2018-19

Wrth feddwl am newid i'r amrywiaeth o rywogaethau yng Nghymru, mae 17% o bobl yn dweud y bu cynnydd mewn bioamrywiaeth, 54% yn dweud gostyngiad, a 29% dim newid. O ystyried newid i'r amrywiaeth o rywogaethau yng Nghymru yn y dyfodol, dywed 21% o bobl y bydd bioamrywiaeth yn cynyddu yn y dyfodol, dywed 63% y bydd yn gostwng, a 16% na fydd unrhyw newid.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/arolwg-cenedlaethol-cymru-arolwg-chwarterol-ionawr-i-fawrth-2021-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

## Perygl llifogydd

Mae 6% o bobl yn dweud bod eu cartref mewn perygl o lifogydd. Mae 13% o bobl yn eithaf pryderus deg neu'n pryderu'n fawr am y perygl o lifogydd i'w heiddo, mae 48% yn pryderu am lifogydd yn eu hardal leol, ac mae 86% yn pryderu am lifogydd mewn rhannau eraill o Gymru. Mae'n ymddangos bod cynnydd wedi bod mewn pryder ers i'r cwestiynau gael eu gofyn ddiwethaf yn 2018-19 (er y gofynnwyd y cwestiynau wyneb yn wyneb, yn hytrach na thros y ffôn). Yn 2018-19, roedd 11% yn pryderu am y perygl o lifogydd i'w heiddo, 28% i'w hardal leol, a 62% i rannau eraill o Gymru. Gallai'r pryder cynyddol am lifogydd gael ei briodoli i'r llifogydd helaeth yn ystod gaeaf 2019-2020.

## Llesiant ac unigrwydd

Dywed 16% o bobl eu bod yn unig. Mae hyn i fyny o 12% yn y misoedd Hydref i Ragfyr 2020, ond yn debyg i 2019-20, pan oedd 15% o bobl yn unig. Gallai hyn fod yn arwydd bod pobl o'r farn bod y cyfyngiadau symud yn ystod rhan gyntaf 2021 yn fwy unig na'r cyfyngiadau coronafeirws cyntaf.

Adlewyrchir effaith cyfyngiadau symud y gaeaf hefyd yn y canlyniadau llesiant. Mae 70% o bobl yn adrodd boddhad uchel neu uchel iawn â bywyd. Mae hyn yn is nag yn y misoedd Hydref i Ragfyr 2020, pan ddywedodd 78% o bobl yr un peth. Dywed 79% o bobl eu bod yn teimlo bod y pethau y maent yn eu gwneud mewn bywyd yn werthfawr, i lawr o 85% yn y tri mis blaenorol. Dywed 24% o bobl fod ganddynt lefelau uchel o bryder y diwrnod blaenorol, yr un fath ag yn ystod mis Hydref i fis Ragfyr 2020. Dywed 70% o bobl eu bod yn teimlo'n hapus y diwrnod blaenorol, o'i gymharu â 76% yn y chwarter blaenorol.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/arolwg-cenedlaethol-cymru-arolwg-chwarterol-ionawr-i-fawrth-2021-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

# Gwasanaethau gofal iechyd

Cafodd 48% o bobl apwyntiad meddyg teulu a chafodd 27% apwyntiad ysbyty yn y cyfnod ers dechrau mis Ebrill 2020. Dywedodd 83% o'r rhai a gafodd apwyntiadau meddyg teulu dros y ffôn eu bod yn fodlon, o'i gymharu â 95% o'r rhai a oedd ag apwyntiadau meddyg teulu wyneb yn wyneb.

Mae 41% o bobl wedi cael apwyntiad gyda gweithiwr iechyd proffesiynol arall o'u meddygfa (e.e. nyrs practis) yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.

Dywed 35% o bobl eu bod yn cael prawf llygaid o leiaf unwaith y flwyddyn, 37% bob dwy flynedd, 17% yn llai na phob dwy flynedd, ac mae 8% yn dweud nad ydynt erioed wedi cael prawf llygaid.


Dywed 76% o bobl fod ganddynt ddeintydd neu bractis deintyddol rheolaidd. Dywed llai o bobl eu bod wedi cael eu apwyntiad deintyddol diwethaf yn ystod y 6 mis diwethaf, o'i gymharu â'r bobl y gofynnwyd iddynt yn 2019-20 (gweler Siart 2). Mae hyn yn debygol o fod oherwydd cyfyngiadau symud a chadw pellter cymdeithasol.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/arolwg-cenedlaethol-cymru-arolwg-chwarterol-ionawr-i-fawrth-2021-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

**Siart 2: Apwyntiad deintyddol diwethaf, Ionawr i Fawrth 2021, o'i gymharu ag amlder archwiliadau deintyddol, 2019-20**




Ffynhonnell: Arolwg Cenedlaethol Cymru, Ionawr i Fawrth 2021 a 2019-20

O'r rhai a gafodd eu hapwyntiad deintyddol diwethaf dros 2 flynedd yn ôl, nid oes gan 75% ddeintydd neu bractis deintyddol rheolaidd. O'r rhai a gafodd apwyntiad yn ystod y 12 mis diwethaf, roedd 59% yn benodiadau'r GIG, roedd 36% yn breifat, ac roedd 5% yn GIG ac yn breifat.

## Iechyd y boblogaeth

Mae Llywodraeth Cymru yn canolbwyntio ar bum ymddygiad 'ffordd iach o fyw: peidio â smygu, peidio ag yfed uwchlaw canllawiau, cadw pwysau iach, bwyta 5

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/arolwg-cenedlaethol-cymru-arolwg-chwarterol-ionawr-i-fawrth-2021-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

dogn o ffrwythau neu lysiau, a bod yn egnïol. Gwelsom fod gan 28% o bobl 4 neu 5 o'r ymddygiadau ffordd iach hyn o fyw, tra bo gan 7% lai na 2 ymddygiad ffordd iach o fyw.

Mae 14% o bobl yn smygwyr, ac mae 30% yn gyn-smygwyr. Nid yw 20% o bobl yn yfed alcohol, tra bod 17% yn yfed mwy na'r canllaw o 14 uned yr wythnos. Mae gan 37% o bobl bwysau iach, tra bod 61% dros bwysau neu'n ordew (gan gynnwys 24% yn ordew). Dywedodd 31% o bobl eu bod wedi bwyta 5 dogn neu fwy o ffrwythau a llysiau y diwrnod cynt. Dywedodd 51% o bobl eu bod yn egnïol am o leiaf 150 munud yr wythnos flaenorol, gan fodloni'r canllawiau gweithgarwch wythnosol.

Ni ddylid cymharu'r canlyniadau hyn ar gyfer ffordd o fyw sy'n gysylltiedig ag iechyd â chanlyniadau blynyddoedd blaenorol Arolwg Cenedlaethol Cymru oherwydd y newid yn y modd arolygu (ac, mewn rhai achosion, yr angen i addasu cwestiynau). Gall y pynciau hyn fod yn sensitif i newidiadau o'r fath. Rydym yn bwriadu edrych ar gymharedd yn fanylach yn ddiweddarach yn y flwyddyn.

# Ysgolion cynradd

Mae 87% o rieni sydd â phlant oedran cynradd yn dweud bod yr ysgol yn dod o hyd i ffyrdd o gefnogi plant gyda'u dysgu gartref.

Dywed 49% o rieni eu bod yn helpu eu plentyn bob dydd gyda'u llythrennau, eu darllen neu eu hysgrifennu, a dywed 48% o rieni eu bod yn eu helpu gyda'u mathemateg.

Dywedir bod gan 63% o blant oedran ysgol gynradd eu cyfrifiadur, gliniadur neu dabled eu hunain ar gyfer gwaith ysgol. Mae gan 29% arall fynediad at ddyfais a rennir.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/arolwg-cenedlaethol-cymru-arolwg-chwarterol-ionawr-i-fawrth-2021-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

## Ysgolion uwchradd

Dywed 81% o rieni sydd â phlentyn oedran uwchradd fod yr ysgol yn dod o hyd i ffyrdd o gefnogi eu plant gyda'u dysgu gartref.

Dywed 68% o rieni â phlentyn oedran ysgol uwchradd eu bod yn cefnogi eu plentyn gyda'u gwaith ysgol o leiaf unwaith yr wythnos.

Mae gan 83% o blant oedran ysgol uwchradd eu cyfrifiadur, gliniadur neu dabled eu hunain ar gyfer gwaith ysgol. Mae gan 14% arall fynediad at ddyfais a rennir.

## Cyflogaeth

Dywed 69% o oedolion 16 i 64 oed eu bod mewn gwaith cyflogedig (gan gynnwys pobl hunangyflogedig). Mae hyn yn cynnwys y 5% o oedolion 16 i 64 oed sy'n dweud eu bod ar ffyrlo. Dywed 4% o oedolion 16 i 64 oed eu bod yn ddi-waith. Mae'r **Arolwg o'r Llafurlu** yn dangos mai'r gyfradd gyflogaeth ymhlith oedolion 16 i 64 oed yng Nghymru oedd 74% rhwng Ionawr a Mawrth 2021, ac mai 4% oedd y gyfradd ddiweithdra.

Mae 18% o bobl wedi gweld newid yn eu statws cyflogaeth yn sgil y coronafeirws. Mae hyn yn cynnwys y rheini sydd wedi colli eu gwaith neu wedi newid nifer yr oriau maent yn eu gweithio.

## Tlodi bwyd

Dywed 2% o bobl eu bod wedi cael bwyd gan fanc bwyd yn ystod y 12 mis blaenorol oherwydd diffyg arian, yn debyg i'r chwarter blaenorol. Mae 1% arall o

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/arolwg-cenedlaethol-cymru-arolwg-chwarterol-ionawr-i-fawrth-2021-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

bobl yn dweud y bydden nhw wedi hoffi cael bwyd gan fanc bwyd ond heb wneud hynny.

## Cyllid

Dywed 79% o bobl eu bod yn cadw i fyny â'u holl filiau ac ymrwymiadau heb unrhyw anhawster, o’i gymharu â 68% yn 2019-20.

Dywed 13% o bobl eu bod wedi cael  Credyd Cynhwysol yn ystod y 3 mis blaenorol, o gymharu â 9% yn 2019-20.

## Gwirfoddoli a COVID-19

Mae 4% o bobl eu dweud eu bod wedi gwirfoddoli i helpu gyda'r sefyllfa COVID-19 yn y pedair wythnos flaenorol. Mae hyn wedi gostwng ers rhan gyntaf y pandemig:  yn ystod y cyfnod o fis Mai i fis Medi, dywedodd 8% o bobl eu bod wedi gwirfoddoli yn ystod y 4 wythnos flaenorol. O'r rhai a wirfoddolodd rhwng mis Ionawr a mis Mawrth, mae 89% yn bwriadu parhau i wirfoddoli am o leiaf 6 mis arall neu cyn belled â bod ei angen.

## Gwybodaeth am ansawdd

Cynhaliwyd cyfweliadau dros y ffôn gyda hapsampl o bobl 16 oed a throsodd. Mae siartiau manwl a thablau canlyniadau ar gael yn ein **dangosydd canlyniadau** rhyngweithiol. I gael gwybodaeth ynglŷn â chasglu’r data a’r fethodoleg, gweler yr **adroddiad ansawdd**.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/arolwg-cenedlaethol-cymru-arolwg-chwarterol-ionawr-i-fawrth-2021-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

## Statws Ystadegau Gwladol

Mae **Awdurdod Ystadegau'r Deyrnas Unedig** wedi dynodi'r ystadegau hyn yn Ystadegau Gwladol, yn unol â Deddf Ystadegau a'r Gwasanaeth Cofrestru 2007, sy'n dangos cydymffurfiaeth â'r **Cod Ymarfer ar gyfer Ystadegau**.

Golyga statws Ystadegau Gwladol fod yr ystadegau swyddogol yn bodloni'r safonau uchaf o ran dibynadwyedd, ansawdd a gwerth cyhoeddus.

Dylai'r holl ystadegau swyddogol gydymffurfio â phob agwedd ar y Cod Ymarfer ar gyfer Ystadegau. Dyfernir statws Ystadegau Gwladol iddynt yn dilyn asesiad gan gangen reoleiddio Awdurdod Ystadegau'r DU. Mae'r Awdurdod yn ystyried a yw'r ystadegau'n cyrraedd y safonau uchaf o ran cydymffurfio â'r Cod, gan gynnwys y gwerth y maent yn ei ychwanegu at benderfyniadau a thrafodaethau cyhoeddus.

Cyfrifoldeb Llywodraeth Cymru yw parhau i gydymffurfio â'r safonau a ddisgwylir gan Ystadegau Gwladol. Os byddwn yn pryderu ynghylch a yw'r ystadegau hyn yn dal i gyrraedd y safonau priodol, byddwn yn trafod y pryderon hynny â'r Awdurdod yn brydlon. Gellir dileu statws Ystadegau Gwladol ar unrhyw adeg pan nad yw'r safonau uchaf yn cael eu cynnal, a gellir adennill y statws pan fo'r safonau'n cael eu hadfer.

Cadarnhawyd y byddai'r ystadegau hyn yn parhau i gael eu dynodi fel Ystadegau Gwladol ym mis Mehefin 2020 yn dilyn asesiad llawn yn erbyn y Cod Ymarfer (**llythyr cadarnhau**). Y tro diwethaf i'r ystadegau hyn gael eu cynnal oedd asesiad llawn (**adroddiad llawn**) yn erbyn y Cod Ymarfer yn 2013.

Ers yr adolygiad diweddaraf gan y Swyddfa Rheoleiddio Ystadegau, rydym wedi parhau i gydymffurfio â'r Cod Ymarfer ar gyfer Ystadegau ac wedi gwneud y gwelliannau canlynol:

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/arolwg-cenedlaethol-cymru-arolwg-chwarterol-ionawr-i-fawrth-2021-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

- darparu dadansoddiadau manylach yn y **dangosydd canlyniadau** a'i gwneud yn haws i ddefnyddwyr gymharu canlyniadau ar draws blynyddoedd
- diweddaru pynciau'r arolwg yn flynyddol i sicrhau ein bod yn parhau i ddiwallu anghenion polisi sy'n newid
- gwneud dadansoddiad atchweliad yn rhan safonol o'n hallbynnau i helpu defnyddwyr i ddeall cyfraniad ffactorau penodol at ganlyniadau diddordeb.

## Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol

Hanfod Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 yw gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Mae'r Ddeddf yn sefydlu saith nod llesiant i Gymru sef Cymru fwy cyfartal, llewyrchus, cydnerth, iach a chyfrifol ar lefel fyd-eang, gyda chymunedau cydlynol a diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn  ffynnu. O dan adran (10)(1) o'r Ddeddf, rhaid i Weinidogion Cymru (a) gyhoeddi dangosyddion ("dangosyddion cenedlaethol") y mae'n rhaid eu defnyddio i fesur cynnydd tuag at gyflawni'r nodau llesiant, a (b) gosod copi o'r dangosyddion cenedlaethol gerbron Senedd Cymru. Cafodd y 46 o ddangosyddion cenedlaethol eu gosod ym Mawrth 2016. Mae'r Arolwg Cenedlaethol yn casglu gwybodaeth ar gyfer **15 o'r 46 dangosydd**.

Gwybodaeth bellach am **Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015**.

Gallai'r ystadegau a ddefnyddir yn y datganiad hwn ategu'r dangosyddion cenedlaethol a chael eu defnyddio gan fyrddau gwasanaethau lleol mewn perthynas â'u hasesiadau llesiant a'u cynlluniau llesiant lleol.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/arolwg-cenedlaethol-cymru-arolwg-chwarterol-ionawr-i-fawrth-2021-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

# Manylion cyswllt

Ystadegydd: Scott Armstrong
Llinell Ymholiadau Cyffredinol
Ffôn: 0300 025 5050
E-bost: **arolygon@llyw.cymru**

Cyfryngau: 0300 025 8099

SB 20/2021

**Efallai na fydd y ddogfen hon yn hollol hygyrch.**
Drllenwch ein **datganiad hygyrchedd** i gael rhagor o wybodaeth.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/arolwg-cenedlaethol-cymru-arolwg-chwarterol-ionawr-i-fawrth-2021-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.